

## 2012 Rhif 485 (Cy. 80)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Trosbont Llansanffraid-ar-Elái i Draphont Afon Elái, Caerdydd) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2012

*Gwnaed*

*23 Chwefror 2012*

*Yn dod i rym*

*5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Trosbont Llansanffraid-ar-Elái i Draphont Afon Elái, Caerdydd) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gerbyttffordd tua'r de cefnffordd yr A4232 rhwng trosbont Llansanffraid-ar-Elái a Thraphont Afon Elái yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog  
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion  
Cymru.

Dyddiedig

23 Chwefror 2012

***G R Morgan***

**GARETH MORGAN**

Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol  
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn Cyflymder 50 mya**

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt trosbont Llansanffraid-ar-Elái hyd at bwynt 302 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ddechrau'r

ynys draffig sydd ag ymyl pafin wrth gyffordd Sain Ffagan.

**ATODLEN 2**  
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 302 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ddechrau'r ynys draffig sydd ag ymyl pafin wrth gyffordd Sain Ffagan hyd at bwynt 66 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Traphont Afon Elái, gan gynnwys y lleiniau arafu a chyflymu wrth gyffordd Sain Ffagan o fewn hyd a lled ffin y gefnffordd.